

Cyhoeddi Adroddiad Cylch Pump Arolwg Bwyd a Chi ar gyfer Cymru

Caiff [arolwg Bwyd a Chi](#), sy'n cynnwys data o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth am ymddygiadau ac agweddau hunangofnodedig y cyhoedd at brynu, coginio a bwyta bwyd. Mae'n cael ei gyhoeddi bob dwy flynedd.

Prif ganfyddiadau:

Cyfyngiadau deietegol, alergeddau ac anoddefiadau bwyd

Y grwpiau bwyd mwyaf cyffredin y nododd yr ymatebwyr eu bod yn cael adwaith niweidiol iddynt oedd llaeth buwch a chynnyrch llaeth buwch (21%), grawnfwydydd sy'n cynnwys glwten (16%) a ffrwythau (15%).

Siopa

Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn siopa am fwyd mewn archfarchnadoedd mawr (94%). Dim ond lleiafrif o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio mathau eraill o fanwerthwyr, yn fwyaf cyffredin archfarchnadoedd bach (37%), siopau lleol neu siopau cornel (31%) a chigyddion annibynnol (28%).

Diogelwch y cyflenwad bwyd(food security)

Yng Nghymru, roedd 80% o'r ymatebwyr yn byw mewn aelwydydd lle'r oedd diogelwch y cyflenwad bwyd yn uchel, 10% yn byw mewn aelwydydd lle'r oedd diogelwch y cyflenwad bwyd yn ffiniol a 10% yn nodi eu bod yn byw mewn aelwydydd lle'r oedd diogelwch y cyflenwad bwyd yn isel neu'n isel iawn. Mae'r cyfrannau hyn wedi aros ar lefelau tebyg ers Cylch 4 (2016).

Sgoriau hylendid bwyd ar gyfer busnesau bwyd

Ers 2013, mae wedi bod yn ofyniad cyfreithiol i fusnesau yng Nghymru arddangos eu sgôr hylendid o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB). Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr (94%) eu bod wedi gweld sticer y CSHB. Mae lefelau adnabod sticeri'r Cynllun wedi parhau i gynyddu ers eu cyflwyno yn 2010, o 43% yng Nghylch 2 (2012) i 76% yng Nghylch 3 (2014) ac 89% yng Nghylch 4 (2016) a 94% yng Nghylch 5 (2018).

Arferion hylendid yn y cartref

Dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr (46%) eu bod bob amser yn defnyddio gwahanol fyrddau torri ar gyfer gwahanol fwydydd, yn unol ag arferion a argymhellir i osgoi croeshalugi, tra bod 19% byth yn gwneud hyn. Roedd 68% yn dilyn argymhellion ar storio bwyd yn yr oergell gan storio cig a dofednod amrwd ar silff waelod yr oergell, a'r un gyfran nad oedd erioed wedi storio bwyd mewn tuniau agored yn yr oergell.

Penderfynu ble i fwyta allan

Wrth benderfynu ble i fwyta allan, roedd ymatebwyr yn defnyddio eu profiad eu hunain o'r lle yn fwyaf aml (67%), argymhellion gan deulu a ffrindiau (52%) neu enw da'r busnes (50%).

Pan ddangoswyd rhestr o ffactorau a allai ddylanwadu ar eu penderfyniad ar ble i fwyta allan, roedd ymatebwyr yn fwyaf tebygol o sôn am sgôr hylendid dda (71%), gwasanaeth da (67%), a phris bwyd (56%) fel ffactorau pwysig.

Arolwg Bwyd a Chi

Mae Bwyd a Chi yn ystadegyn swyddogol sydd wedi cael ei gynnal bob dwy flynedd ers 2010. Mae'r arolwg yn darparu data allweddol ar wybodaeth, agweddau ac ymddygiad hunangofnodedig y cyhoedd mewn perthynas â diogelwch bwyd a materion sy'n ymwneud â bwyd. Mae'r ASB yn defnyddio'r wybodaeth i lywio polisiau a'i gwaith gyda defnyddwyr.

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer cylch pump rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2018 ac roedd yn cynnwys 2,241 o gyfweiliadau gyda sampl gynrychioliadol o oedolion (16 oed a h?n) ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae adroddiad Cymru yn cynnwys canfyddiadau yn seiliedig ar 536 o gyfweiliadau gan sampl gynrychioliadol o oedolion 16 oed a h?n yng Nghymru. Mae'n cyd-fynd â'r adroddiad cyfunol a gyhoeddwyd ar 25 Ebrill 2019.

Darllen yr adroddiadau

[Cylchoedd un i bump Bwyd a Chi \(2010-18\).](#)